

Angen rhoi ffydd mewn pobl ifanc a chyfathrebu'n gyson – neges y Llywydd



Ann Harries, y cyn-lywydd, yn trosglwyddo cadwyn y llywyddiaeth i Haydn Richards

Mae angen rhoi ffydd mewn ieuentid a chyfathrebu'n effeithiol gyda'n gilydd er mwyn sicrhau dyfodol Undodiaeth yng Nghymru dyna neges Llywydd newydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Wrth gymryd yr awennau oddi wrth Ann Harries a diolch iddi am ei gwaith caled, dywedodd Haydn Richards bod 'na nifer o resymau i fod yn obeithiol am ddyfodol Undodiaeth ond bod 'na heriau anodd yn ein wynebu hefyd.

"Hyd yma, ry'n ni wedi bod yn ffodus iawn, a does dim capeli wedi cau gyda ni yn ystod y blynyddoedd diwetha' yn wahanol i enwadau eraill," meddai Mr Richards.

Her

"Y nod a'r her yw cynnal gwasanaethau rheolaidd ymhob un o'r capeli. Os yw hynny'n parhau, yna mae'n bwysig bod y drysau yn aros ar agor."

Dywedodd Mr Richards hefyd ei fod e'n teimlo bod mantais i'r ffaith bod yr enwad wedi ei ganoli ar y Smotyn Du ac ardal fach yn ne Cymru.

"Rwy'n credu bod hyn yn golygu ein bod ni'n closio at ein gilydd yn naturiol, ac mae hynny'n sicr o fod yn beth da," meddai. "Mae capeli enwadau eraill wedi eu gwasgaru dros Gymru gyfan. Ambell waith mae hynna'n gallu arwain at raniadau."

Cyfathrebu

Er hynny, rhybuddiodd y Llywydd newydd bod angen i aelodau'r gwahanol gapeli gyfathrebu'n gyson gyda'i gilydd er mwyn sicrhau ffyniant yr enwad.

"Mae cyfathrebu yn hynod bwysig," meddai. "Ac rwy'n teimlo bod angen i ni gyd i weithio ar hynny a gwella'r ffordd ry'n ni'n cyfathrebu. Mae'n bwysig hefyd fod pobl yn defnyddio'r 'Ymofynnydd' fel modd o rannu gwybodaeth a syniadau."

Ieuentid

Pwysleisiodd hefyd bod angen rhoi ffydd mewn ieuentid er mwyn gwneud y mudiad Undodaidd yn un perthnasol i'r genhedlaeth ifanc.

"Mae gyda ni bobl ifanc arbennig iawn yn rhan o'r capeli yma yn y Smotyn Du, ac rwy'n siwr bod hynna'n wir am gapeli'r de hefyd. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio talentau rhain a'u tynnu nhw mewn i bethau i sicrhau bod sylfaen cryf gyda ni ar gyfer y dyfodol."

Soniodd yn ogystal bod angen defnyddio pob cyfle i hyrwyddo'r mudiad.

"Rwy'n awyddus iawn i'n gweld ni'n gweithio i godi ymwybyddiaeth am Undodiaeth. Mae gyda ni lawer i fod yn falch amdano fe, ac mae'n bwysig fod pobl yn dod i wybod am ein llwyddiannau ni fel mudiad."

**Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd**



Theodore Parker

O Boston i Bontsian

Cofio Theodore Parker

1810 – 1860

Roedd Theodore Parker yn un o feddylwyr mawr y mudiad Undodaidd. Ac, fel yr esbonia y Parch Alun Wyn Dafis, roedd ei ddylanwad yn fawr ar Gwilym Marles a datblygiad Undodiaeth yn y Smotyn Du.



Gwilym Marles

Bron yn union i ddau gan mlynedd yn ôl, yn Lexington Massachusetts, ganwyd un o Undodiaid enwocaf yr Unol Daleithiau. Mab fferm oedd Theodore Parker. Yr oedd yn fachgen galluog iawn a derbyniwyd ef i brifysgol enwog Harvard, gan raddio oddi yno yn 1831, a graddio eto mewn diwinyddiaeth yn 1836. Meistrrolodd ieithoedd Lladin, Groeg, Hebraeg ac Almaeneg, ac roedd ganddo wybodaeth dda o nifer o ieithoedd eraill, gan gynnwys ieithoedd Syria, Arabia ac Ethiopia.

Bwriadodd yn wreiddiol ddilyn gyrfa yn y gyfraith, ond, gan fod ganddo ddaliadau crefyddol cadarn, penderfynodd droi at y weinidogaeth Undodaidd. Yr oedd ganddo feddwl effro iawn a dechreuodd ymddiddori, fel nifer arall yn ardal Boston ar yr pryd, yn y syniadau "Trosogynol" (Transcendental) newydd; syniadau yn deillio o waith yr athronydd Almaenig, Immanuel Kant. Credai Parker mai'r cydwybod yw'r peth pwysicaf yn enaid person. Yn wir, credai mai llais Duw yw'r cydwybod, a bod Duw yn bodoli ymhob enaid byw. Gan fod ei gydwybod mor ganolog iddo, treuliodd Parker ei holl fywyd yn ymladd brwydrau dros chwarae teg a chyfiawnder i unrhyw ran o gymdeithas a oedd yn dioddef. Bu Parker yn allweddol yn y frwydr i ryddhau'r caethweision yn America, a chyfeiriad at gaethwasiaeth fel - "the monster monstrous above all monsters." Pan esgynnai i'w bulpu, byddai yn atgoffa ei gynulleidfa eu bod yn byw mewn gwlad - "whose slaves are as numerous as their church members." Roedd Parker yr un mor gefnogol i hawliau merched, hawliau'r tlawd, addysg a chyfle teg i bawb, ac mewn gwirionedd, unrhyw fudiad a oedd yn dyrchafu pobl.

Ond, roedd ei feddwl effro yn dechrau cythruddo llawer o'i gyd-Undodiaid Americanaidd. Yn dilyn ei astudiaethau o'r Beibl, dechreuodd Parker gyhoeddi mewn llythyrau, ac o'i bulpu, bod y Beibl yn llawn o gamgymeriadau, ac yn aml, yn gwrth-ddweud ei hun. Aeth ymhellach, gan ddweud, fod llawer o anwiredd yn y Beibl, a bod rhannau ohono yn gwbl ddiwerth, gan gynnwys, er enghraifft, yr holl storïau yn ymwneud â'r Iesu yn gwneud gwyrthiau. Roedd Parker, a'i "grefydd newydd", wedi mynd gam yn rhy bell yng ngolwg Undodiaid ceidwadol ardal Lloegr Newydd, ac o fewn dim amser, gwrthodwyd caniatad iddo bregethu yn y rhan fwyaf o'r eglwysi Undodaidd, a chafodd hi'n anodd, hyd yn oed, i gael gafael ar argraffwyr a oedd yn fodlon cyhoeddi ei lyfrau a'i syniadau. Ond, drwy'r cwbl, safodd rhai cefnogwyr wrth ei ochr, a chafodd wahoddiad i bregethu yn Boston a dod yn weinidog yno ar eglwys newydd sbon yn 1845. Erbyn diwedd ei fywyd, deuai rhwng 2,000 a 3,000 o bobl i wrando arno yn Boston bob dydd Sul. Dywedir, fodd bynnag, iddo weithio ei hun i farwolaeth, a bu farw yn ddyd cymharol ifanc yn 1860.

Ond beth yw'r cysylltiad rhwng Theodore Parker a Chymru?

Yn 1863, dair blynedd wedi marwolaeth Parker, yn rhifyn Hydref 'Yr Ymofynnydd', mae'r Golygydd yn cynnwys paragraff am Parker, ac yn arbennig, am beth oedd Parker yn ei feddwl am y gair 'Cristion' ac a oedd Parker yn ei ystyried ei hun fel Cristion. Ond, chwarae teg, mae'r Golygydd yn cyfaddef hefyd nad yw ef yn bersonol wedi cael y cyfle i ddarllen llyfrau Parker, dim ond - "rhannau gwasgareddig". Yna, yn ddi-ddorol iawn, yn rhifyn Rhagfyr

1863 o'r Ymofynnydd, cyhoeddir llythyr hir gan y Parch Owen Evans, gweinidog eglwys Undodaidd Cefn Coed y Cymer, dyn dysgedig iawn (gweler ei hanes yn y llyfr 'Cewri'r Ffydd') yn honni nad oedd Parker yn galw ei hun yn Gristion, ac mae Owen Evans yn honni ei fod wedi gwneud "haeriad" ar yr un trywydd wrth iddo bregethu yn yr haf yng Nghyrrddau'r Gymdeithas yng Nghapel y Groes. Yn y rhifyn ollynol, yn Ionawr 1864, mae Owen Evans yn parhau gyda'i drafodaeth ac erbyn hyn mae'n cyfeirio at syniadau Parker fel - "cunglwyth o haeriadau dyn gwallgofus a dyna'r mater ar ben."

Ond roedd y mater ymhell o fod ar ben. Yn yr un rhifyn o'r 'Ymofynnydd', yn Ionawr 1864, ceir llythyr gan weinidog ifanc o Landysul yn tynnu dadl Owen Rees yn rhacs, ac yn honni bod Rees wedi pigo - "bricen neu ddau" lan a'u rhoi nhw o flaen darllenwyr 'Yr Ymofynnydd' fel - "samplau o'r holl adeilad". Ychwanega wedyn, "Gresyn fod enw dyn mor fawr yn cael ei lusgo i mewn mor ddiseremoni".

Pwy tybed oedd yn ddigon dewr i dynnu'r hen 'broffeswr Owen' i lawr yn gyhoeddus? Yr enw ar waelod y llythyr yw William Thomas, Gwilym Marles wrth gwrs, a'r dyddiad ar y llythyr yw Rhagfyr y 25ain!! Ond nid oedd Owen Evans yn un i roi mewn chwaith, Yn rhifyn Chwefror 1864 mae'n parhau gyda'i ymdriniaeth o Parker, ond mewn ffordd dipyn mwy academaidd, onibai am un gic ar ddiwedd yr erthygl, wedi ei anelu at Gwilym Marles, wrth ofyn y cwestiwn, "a ddylai "canlynwyr" Parker yn y wlad hon "beidio galw eu hunain yn Gristnogion?"

Gwilym Marles oedd i gael y gair diwethaf fodd bynnag, gan i Olygydd 'Yr Ymofynnydd' ofyn iddo gyfrannu erthygl bob mis i'r cylchgrawn yn olrhain hanes bywyd Parker. Ymddangosodd yr erthygl cyntaf yn rhifyn Mawrth 1864, a chafwyd un bob mis gyda'r erthygl ddiwethaf yn ymddangos yn Rhagfyr o'r un blwyddyn. Yn ddigon eironig, gwelais nodyn yn 'Ymofynnydd' Chwefror 1865 yn cyhoeddi fod Owen Evans wedi marw ar Ionawr y 7fed.

Mae erthyglau Gwilym Marles ar Theodore Parker yn 'Yr Ymofynnydd' yn ystod 1864 yn drylwyr ac yn llawn edmygedd o'i waith a'i syniadau. Mae'n werth nodi hefyd fod Gwilym Marles wedi penderfynu enwi un o'i blant yn Theodore, ar ôl ei arwr o Boston. Yn ei ragarweiniad i'r llyfr "Lloyd Letters" a gyhoeddwyd yn 1908, dywed Walter J. Evans, M.A., prifathro Coleg Caerfyrddin ar y pryd - "The Unitarianism of Gwilym Marles Thomas was that of the new rationalistic school of which Theodore Parker was the leading exponent. And it is worth noting that Gwilym Marles Thomas was for many years the only Unitarian Minister in Wales that preached this 'advanced' theology, so that in 1860, as in 1726, the people of Llwyn led the way."

Trwy Gwilym Marles roedd syniadau newydd Theodore Parker wedi teithio o Boston i Bontsian, Llwynrhydowen a'r Smotyn Du. Yn debyg i Parker, roedd gan Gwilym Marles y cydwybod cymdeithasol hwnnw a yrrodd y ddau ohonynt i frwydro dros chwarae teg a chyfiawnder, ac yn debyg i Parker, bu Gwilym Marles farw yn ifanc oherwydd ei ymdrechion.

NEWYDDION MORGANNWG

Aberdar

Mae aelodaeth Highland Place wedi mynd ati i wella cyflwr rhannau o'r capel yn ddiweddar. Cafwyd cegin newydd ac fe foderneiddiwyd y toiledau. Mae ffenestr liw newydd werdi cael ei gosod yn y capel i nodi'r ffaith fod y gynulleidfa yn mynd i ddathlu 150 mlynedd y flwyddyn nesaf. Hefyd, ceir mynediad ar gyfer yr anabl a tholed newydd ar gyfer cadair olwyn.

Cafwyd cynulleidfa dda yn y Gwasanaeth Diolchgarwch gyda myfyriwr o Goleg Manceinion, Daniel Crosby, yn cymryd y gwasanaeth. Cafwyd gwefan newydd ar gyfer y capel a cheir mynediad iddi drwy deipio "Aberdare Unitarians".

Cefncoed

Roedd yr Hen Dy Cwrdd yng Nghefncoed ar agor ar gyfer ymwelwyr dros penwythnos yn ddiweddar i dynnu sylw at adeiladau hanesyddol yng Nghymru a chafwyd nifer o ymwelwyr.

Caerdydd

Mae Cynulleidfa Gymraeg Caerdydd yn awyddus i wybod am Undodiaid sydd yn byw yn ardal Caerdydd. Byddai croeso iddynt i ddod i'r Gwasanaeth Gymraeg ar yr ail Sul o'r mis am 3.15 y prynhawn yn Nhy cwrdd y Crynwyr yn Heol Siarl (gerllaw Siop Marks and Spencer). Gobeithir cael gwefan yn Gymraeg ar gyfer Undodiaid Caerdydd yn fuan.

CAPEL Y GRAIG

Mr Twelley Davies

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Twelley Davies a fu farw yn ddiweddar. Bu Twelley yn aelod ffyddlon o'r capel ac yn gymwynaswr mawr. Roedd hefyd yn weithgar iawn, a doedd dim yn ormod o ffwddan iddo. Colled enfawr i'r capel ac i'r enwad.

Ymdeoliad

Cyflwynwyd rhodd i Mrs Ceridwen Evans rai wythnosau yn ôl wedi iddi ymdeol fel gofalwraig y capel. Bu Mrs Evans yn ofalwraig am nifer o flynyddoedd. Diolchwn iddi am ei gwaith caled a diflino. Ei merch, Dilys Evans, sydd yn cymryd yr awennau.



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Teleri Morris a Gerwyn Thomas ar eu priodas yn ddiweddar yng Nghapel y Graig. Pob lwc i'r pâr ifanc yn ei bywyd priodasol.

Estynnwn ein llongyfarchiadau i bawb a lwyddodd mewn arholiadau, eisteddfodau a unrhyw weithgaredd cystadleuol arall yn ystod y flwyddyn.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i aelodau a ffrindiau'r capel sydd wedi bod yn yr ysbyty neu yn ddi-hwyl yn ddiweddar.

CAPEL Y GROES

Ymweliad y Llywyddion

Mae yn arferiad blynyddol i Lywydd y G.A. ac i Lywydd Urdd y Benywod i ymweld â Chymru yn ystod tymor eu Llywyddiaeth a hynny ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Eleni - gan fod y ddau ohonynt yn briod â'i gilydd ac yn enwedig gan eu bod nhw yn byw mor bell i fwrdd, sef yn Dundee yn yr Alban - fe drefnwyd eu bod nhw yn dod ar yr un pryd. Yn ôl a ddeallir, dyma'r tro cyntaf erioed i'r ddau Lywydd fod yn briod â'i gilydd yn ystod tymor eu Llywyddiaeth ac fel y nodwyd ar ddechrau'r gwasanaeth gan y Parch Cen Llwyd, roedd yr achlysur yn un hanesyddol i'r enwad.

Yn dilyn penderfyniad yng Nghyrrddau'r Gymdeithas eleni ym Mwlchfyadfa cytunwyd mae priodol oedd hi i gynnal y gwasanaeth yng Nghapel y Groes yn enwedig felly gan fod Haydn Richards, Llywydd y Gymdeithas a Siriol Thomas, Is Lywydd Urdd y Benywod, yn aelodau yno.

Digwyddodd yr ymweliad ar ddydd Sul 25 Hydref a braf oedd gweld cymaint wedi dod ynghyd. Y diwrnod cynt fe fuont yn Ne Cymru, wedi sefyll nos Wener yn Y Barri, cawsant a'r fore Sadwrn daith o gwmpas y Cynulliad cyn mynychu digwyddiad cymdeithasol yng Nghapel Highland Place, Aberdâr, yn y prynhawn. Bu'r ddau ar daith arall fore Sul o gwmpas rhai o gapeli Ceredigion.

Ar ddechrau'r gwasanaeth cafwyd eitem gan blant yr Ysgol Sul am fywyd lolo Morganwg a Joseph Jenkins oedd hefyd yn cynnwys cyflwyniad 'power-point' er mwyn hwyluso pethau i rheini oedd yn methu deall Cymraeg. Yn dilyn hynny fe wnaeth Ann Harries estyn croeso i Lywydd Cenedlaethol Urdd y Benywod, Mary Wightman, ac fe roddodd anerchiad i'r gynulleidfa. Yna cafwyd eitemau gan Parti'r Gannwyll ac wedyn gwnaeth Haydn Richards estyn croeso i'r Parchedig Bob Wightman a chafwyd araith yn llawn hiwmor ganddo yntau.

Croesawyd hefyd i'n plith Lis Dyson Jones sef un o'r wyth sydd wedi eu hethol yn aelod o Bwyllgor Gwaith (EC) yr enwad ac fel rhan o'i chyfrifoldebau mae yn gweithredu fel dolen gyswllt gyda Chymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru. Yn bresennol hefyd roedd Neil Summers sydd yn gweithio i Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru, sef y corff sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am ddau o gapeli'r enwad - Hen Dy Cwrdd, Trecynon, yn Aberdâr ynghyd â Hen Gapel Llwynrhadowen. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd braslun ganddo o'r hyn sydd wedi ei gyflawni â'r hyn y bwriedir ei wneud yn y dyfodol gyda'r ddau gapel.

Yn cyfeilio yn ystod y gwasanaeth roedd Ceinwen Roach a Carys Evans. Cerys Potter Jones oedd yn cyfieithu drwy gydol y gwasanaeth. Rhoddwyd y fendith gan y Parch Wyn Thomas. Yn ystod penwythnos yr ymweliad fe lanswyd yn swyddogol llyfr 'Y Tir Da' ('The Good Ground') o waith y Parch J Eric Jones. Llyfr Saesneg yw hwn sydd yn rhoi hanes ein capeli ni yng Nghymru, ac yn ddilyniant i'w lyfr blaenorol, 'Gerddi Ffydd'. Pris y llyfr yw £5. Roedd yn braf ei weld yn bresennol yn yr oedfa.

Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd lluniaeth oedd wedi ei baratoi gan fenywod y capel a diolchwyd iddynt am eu gwaith.

Priodasau

Ar ddydd Gwener, 9 Gorffennaf, priodwyd Sarah Williams ag Ashley Ward yn y capel. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Glyn Hebog, Llanbedr Pont Steffan.

Ar ddydd Sadwrn, 8 Awst, priodwyd Alison Thomas a Dean Reader yn y capel. Cynhaliwyd y wledd briodas yn Nhŷ Glyn Aeron, Cilcennin.

Ar ddydd Sadwrn, 22 Awst, priodwyd Caryl Hughes a Ben Herrick yn Eglwys San Mihangel, Aberystwyth. Cynhaliwyd y wledd briodas yn Llety Parc, Llanbadarn Fawr.

Bedydd

Ar ddydd Sul, 26 Gorffennaf, bedyddiwyd Madi Wyn Potter, merch fach Tina Thomas ac Osian Potter.

Ar ddydd Sadwrn, 8 Awst, bedyddiwyd Jack Edward Austin Roach plentyn Nataliya a Dylan Roach a brawd Emily.

BRONDEIFI

Sul Pawb Ynghyd

Daeth cynulleidfa dda o bell ac agos i'r cyfarfod blynyddol poblogaidd yma. Yn ogystal derbyniwyd aelodau a chyfeillion yr achos newydd a chroesawyd 8 aelod newydd sef: Bridget James, Llanbadarn; Clive Evans, Brynmaen; Llyr Williams, Caerdydd; Kevin a Heather Hughes, Caerfyrddin; Rhodri Hynd, Rhydaman; Gareth Davies, Nantymedd a David Davies, 8 Ffynnon Bedr ac 11 cyfaill yr achos sef:

Gareth Davies, Llangeitho; Gladys McGovern, Abertawe; Glenys Powell, Trallwng; Doreen Ascot, Buckinghamshire; Elaine a Ceri Davies, Llundain; Davina Evans, Dorset; Gwyn Williams, Esgairgoch; Clive Williams, Capel Dewi a John a Barbara Bolton, Gŵyr.

Yn dilyn y gwasanaeth ymunodd pawb yn y festri i fwynhau tē a baratowyd gan wragedd y capel.

Llongyfarchiadau i'r canlynol:

I Gareth Morgans ar ei benodiad yn ddirprwy gyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin

I Iestyn Russell ar ennill Stocman Iau y flwyddyn drwy Gymru ac i Eirwyn Richards hefyd am feirniadu stoc yng ngystadlueaethau'r Ffermwyr Ifanc.

I Carwyn Gregson a Huw Thomas ar y maes rygbi;

I Llywelyn Rhys Evans yn adran ffotograffiaeth Eisteddfod yr Urdd I Suan John yng nghystadlueaeth canu yr Eisteddfod yr Urdd ac i'w mamgu, Mrs Dawn Rees, ar ei llwyddiant yn hyfforddi partion;

I Hefin Jones a'i ddisgyblion yn Ysgol Gymunedol Talybont ar lwyddiannau yn adran offerynol Eisteddfod yr Urdd ac am ganlyniad arbennig yn Arolwg yr Ysgol;

I Megan Haf am ei ymddangosiad yn 'Ffawd' sef cynhyrchiad yr Urdd; am eu chanlyniadau TGAU ac am sicrhau Gradd 4 gydag Anrhydedd mewn arholiad canu;

I Gareth James ar ei benodiad yn un o Is-lywyddion yr Urdd ac ar gyhoeddi ei lyfr 'Dirgelwch Gwersyll Glanllyn';

I Heini Thomas, Pentrebach ar ennill gradd 2.1 gydag anrhydedd mewn Cymraeg ag Hanes yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth;

I Lisa a Natalie Moore yn eu arholiadau TGAU a Lefel A.

I Endaf Morgan a'i frawd Cerith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Endaf yn disgleirio ar y piano a Cerith ar y trwmped.;

I Eirios Thomas, Trefnydd Clybiau Ffermwyr Ifanc, Sir Gâr am gael eu dyfarnu y clwb mwyaf llwyddianus ym Mhrydain Fawr;

I Ioan Wyn Evans ar ei benodi i swydd newydd ym Mhrifysgol Abertawe lle bydd yn gyfrifol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;

I Tegryn Jones ar ei benodi i swydd Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro;

Bedyddiadau:

19fed Ebrill: Marged Hathren – merch fach Geraint a Meleri Jones a Rhys Harrhy – mab bach Dyfed a Meinir Evans;

15fed Tachwedd: Ifan Elfed – mab bach Geraint a Meleri Jones.

Gwasanaethau

Ar Fai 14eg bu'r gweinidog yn gwasanaethu yn Soar y Mynydd ac ymunodd nifer o'r aelodau yn y gwasanaeth gydag eg a'r croeso yn dwymgalon yn ôl yr arfer.

Ar 24ain Mai teuluoedd Hendai, Rhosycoed, Werna, Derlwyn a Cwmcelynen fu'n cynnal gwasanaeth. Y Samariad Trugarog oedd thema'r gwasanaeth a chafwyd cyflwyniad cryno a chofiadwy ganddynt.

Ar y 14eg o Fehefin, Margaret Jones, Glanhelen, a Gwenda Davies, Heddlu, fu yn ein anrhyd gyda hanes eu teithiau diddorol. Tom a Margaret gydag ymweliad a Gwlad Thai a Gwenda a Philip yn siarad am daith i'r India. Er fod y ddwy daith wedi dod a phrofiadau pur wahanol i'r ddau bar 'roedd rhai ffeithiau yn cymharu, megis y tloedi arswydus a'r safonau byw gwarthus ar un llaw a'r cyfoeth a'r ysblander enfawr ar y llaw arall.

Ar Sul olaf Gorffennaf bu Aneurin Jones ag Arthur Roderick yn rhannu profiadau. Aneurin yn son am ei ymrwymiad ef a Sallie at waith dyngarol, yn enwedig Sefydliad y Galon lle maent wedi bod yn aelodau gweithgar o'r pwyllgor lleol ers 1987 sydd wedi codi

dros £200,000 at ymchwil a gwahanol brosiectau.

Soniodd Arthur am ei gyfnod o 34 mlynedd a'i waith fel Swyddog Tân gyda'r Frigid Dân yn Llanbedd a gwaeth ddwyn i gof un o'r digwyddiadau mwyaf erchyll y bu yn ddo pan fu bron iddo golli eu fywyd gan rym y gwres pan fu miliwn galwn o olew yn llosgi yn Aberdaugleddau.

Ar y 27ain o Fedi bu Mrs Mary Jones; Mrs Gwenda Davies a Mr Arthur Roderick yn darllen rhannu o'u hoff lenyddiaeth gan roi eu rhesymau dros eu dewisiadau.

Aelodau yn colli anwyliaid

Cydymdeimlwyd yn ddiffuant a Mrs Eleanor Russell a'r teulu, Coedeiddig, ar farwolaeth ei brawd, Mr Dilwyn Thomas, yn frawychus o sydyn yn Mis Mehefin. Ar yr 11fed o Orffennaf, eto yn syfrdanol o sydyn bu farw Mrs Denise Davies, niith i Mrs Beti Evans a theulu'r Mans a hithau ond yn 45 oed ac yn fam i fachgen bach 7 oed.

Hefyd cydymdeimlwyd â Mrs June Williams, Esgairgoch ar farwolaeth ei thad, Mr Dan Davies, Bannau Teifi a hefyd a theulu y diweddar annwyl Mrs Bessie Edwards, Brynifor a ddiodesfodd ei salwch yn ddewr am flynyddoedd maith ac yna ar ddechrau Mis Hydref cydymdeimlwyd a Mrs Jennie Jones a John Abel Jones ar farwolaeth Mr John Williams Coleman, mab yng nghyfraith a brawd yng nghyfraith.

Taith y Capel

Ar wahoddiad swyddogion Tŷ Hafan a oedd yn dathlu ei 10fed penblwydd ym Mis Mehefin, penderfynwyd derbyn y gwahoddiad a neulltio'r diwrnod i'n taith flynyddol.

Roedd trefniadau'r diwrnod yng ngofal y gweinidog a threfnu'r bws a'r hwyrbryd yn ngofal Aneurin a Sallie Jones. Bu yn ddiwrnod arbennig iawn gan ddechrau drwy dreulio rhyw ddwy awr yn Sain Ffagan lle cafwyd gwasanaeth byr i ddechrau'r diwrnod yng Nghapel Penrhiw,

Roedd Tŷ Hafan yn llawn bwrllwm o weithgareddau i godi arian. Trosglwyddodd Heini Thomas gyfraniad o £540 i swyddogion yr Hospis ar ran Ysgol Sul Brondeifi a chafodd pawb eu tywys o amgylch y lle arbennig yma a phawb yn unfarn ei bod wedi bod yn fraint cefnogi achos mor deilwng.

Diweddyd diwrnod arbennig iawn gyda phryd blasus o fwyd yn y Buck Inn, Pontlliw.

Taith Gerdded

Ymunodd nifer o aelodau Brondeifi ar Daith Gerdded y Gymdeithas o Giliau Aeron i Fferm Brynog. Bu yn daith bleserus a chafwyd llawer o hwyl gan offren gyda thē blasus yn Fferm Brynog wedi ei baratoi gan aelodau Rhydygwin.

Cyngerdd

Bu'r cyngerdd ar 28ain Medi yn noson llwyddiannus dros ben a chapel Brondeifi yn llawn i fwynhau talent Cymru ar ei orau yng nghwmni'r tri bariton, Gwynedd Parry, Emyr Jones ag Aled Edwards; Y Soporano – Ina Williams (Morgan); Meinir Jones Parry yn cyfeilio. Hefyd Endaf Morgan a'i frawd Cerith – Endaf ar y piano a Cerith ar y trwmped ac yna Suan John yn canu ag adrodd. Gwefreiddiwyd pawb gan y perfformiadau. Llywyddion y noson oedd plant y diweddar Daniel a Maggie Jones, Pwllbybilwg, ac er na fedrodd yr un ohonynt fod yn bresennol roedd eu dymuniadau da am lwyddiant y noson yn ddiwyll a'u cyfraniad yn hael iawn.

Diolchgarwch

Ein pregethwr gwadd eleni oedd y Parchedig Jill Thomas, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn y cylch. Pleser pur oedd gwrando ar ei neges a'i llais addfwyn. Diolchwyd iddi yn ddiffuant iawn am ei neges amserol gan y Parch Goronwy Evans.

Cinio'r Cynhaeaf

Bu cryn edrych ymlaen at y digwyddiad yma gan ei fod erbyn hyn wedi sefydlu i fod yn ddiwyddiad blynyddol. Yn ogystal â chael cinio blasus a baratowyd gan Delyth Jones a'i chriw cawsom hefyd anerchiad hwylus a diddorol gan Miss Beti Griffiths, Lledrod. Diolchodd y gweinidog yn gynnes iddi gan gyflwyno Llyfr Hanes Brondeifi iddi fel cydnabyddiaeth.

Cydnabod y Ddawn

Ar yr 18ain Hydref bu ieuencid y capel yn cynorthwyo'r gweinidog mewn gwasanaeth i gydnabod dawn a thalent beirdd fel T Llew Jones; Dic Jones; John Roderick Rees. Hefyd emynwyr fel D Jacob Davies; D Elwyn Davies; T Oswald Williams; Dafydd Jones a WRhys Nicholas.

Gwasanaeth y Plant

Ar Sul, 15fed o Dachwedd gwelwyd yr ieuencid unwaith yn rhagor yn ein diddanu. Mwynhad pur oedd gwyllo a gwranddo ar 11 o blant bach o 3 i 9 oed yn cyflwyno eu rhannau ac wrth eu bodd yn canu emynau. Meinir Jones fu'n cyfeilio a hyfforddwyd hwy gan Meinir Evans a Heini Thomas.

Dymuniadau Da

Dymunir yn dda i holl aelodau a chysylltiadau'r capel sydd mewn ysbytai, cartrefi preswyl neu ar eu aelwydydd a hefyd pob lwc i Carwyn Gregson sydd newydd adael adref i deithio o amgylch y byd am gyfnod o flwyddyn.

Gwasanaeth Gweinidogion ac Organyddion

Dros y cyfnod o Ebrill tan ddiwedd Tachwedd cafwyd y pleser o groesawu'r Parchedigion Cen Llwyd, Alun Wyn Dafis a Wyn Thomas atom i wasanaethu a hefyd bu'r organyddesau canlynol yn gwneud eu rhan yn ffyddlon – Eleanor Russell; Margaret Jones; Meinir Jones; Meinir Evans; Tanya Morgans; Trefina Jones; Beti Evans; Megan Davies a Dawn Rees.

PANTYDEFAID

Cydmdeimlad

Estynnwn ein cydmdeimlad â Katie Thomas, Tŷ Llwyd a'r teulu; Allan Jones, Hengoed; Eilir a Gwyneth Jones; Bill a Meinir Hunter; a theuluoedd Pwllau'r Bryn a Bryndolau yn eu profedigaethau.

Gwellhad

Braf yw clywed bod y canlynol ar wellhâd ar ôl salwch - Betty Thomas, D.O. Evans, Hefina Davies, Uel Evans, Meirianwen Jones Williams, Dr. Eric Thomas a Glesni Mai Thomas. Gwellhâd buan hefyd i Tommy Thomas, Dai Williams, Eilir Jones, Nancy Martin a Gaynor Richards.

Llestri

Diolch i'r canlynol am roddion o lestri at ddefnydd y festri - Katie Thomas, Ellen Davies, Delyth Evans, Hefina a Rowena Davies ac Ann Jones.



Peggy ac Idwal Davies yn dathlu

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r canlynol:

Gwawr Thomas ar ennill taith dramor gyda'r Ffermwyr Ieuainc i UDA. Robert, mab Peter a Barbara, ar ennill gradd o goled Pontypridd. Gareth, mab Geraint a Gaynor, wedi cwblhau

hyfforddiant yng ngholeg y fyddin yn Llundain.

Gwenyth Richards, Lisa Mai, Carwyn Davies, Gwawr Thomas, Luned Mair a Wyn Thomas ar eu llwyddiant yng nghystadleuthau C.Ff.I. Peter a Barbara Davies ar ddatlu eu priodas arian. Gwenyth Richards ac Eirion Jones Williams ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd. Gethin ac Imogen ar eu dyweddiad. Ellen Davies, Sally Davies, Peggy Davies ar ddathlu penblwyddi arbennig. Peggy ac Idwal Davies ar ddathlu eu Priodas Aur. Huw a Vicky Thomas ar ennill graddau M.A. Lisa Mai ar gael ei hethol yn ddirprwy brif ferch Ysgol Dyffryn Teifi. Dylan ac Elaine ar gael eu hethol yn Llywyddion C.Ff.I. Pontsian. Luned Mair ar ennill coron a chadair Eisteddfod Ysgol Llanbed. Pantomeim C.Ff.I Pontsian - o waith Dylan Iorwerth - ar ennill yng Ngheredigion a chael trydydd yng Nghymru.

Dymuniadau Gorau

Dymuniadau Gorau i'r canlynol:

Gethin Richards yn ei swydd newydd yn dysgu yn Aberteifi a Hwlfordd. Gareth Richards ar gychwyn ei gyfnod o dair mlynedd yn yr Almaen gyda'r fyddin. Arfon a Wendy a briodwyd ym Mhantyldefaid ar Awst 22ain.

Diolch

Diolch i'r canlynol: Alan, Gwenyth a Glesni am gasglu £1,125 tuag at daith gerdded y Gymdeithas. Hefyd diolch i bawb a'u noddodd. Elen a Glesni Thomas am gyhoeddi'r emyn ar ran y capel yn y Gymanfa Ganu a'r Gymanfa Bwnc.

Pawb sy'n cadw'r fynwent yn daclus drwy'r flwyddyn a'r rhai a fuodd yn ddiwyd wrth y bylchau newydd i'r cae a'r fynwent.

Urdd y Benywod

Cynhaliwyd Cwrdd Blynyddol Urdd y Benywod Ceredigion ym Mhantyldefaid. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Meinir Hunter. Cymeryd y rhannau arweiniol gan Rowena, Elen, Dwywen, Gwenyth a Mary gyda Hefina wrth yr organ. Y siaradwraig wadd oedd Parch Eileen Davies, Llanllwni a chafwyd noson hwylus iawn yn ei chwmmi.

Cynhaliwyd ein Cinio Blynyddol yn Nhafarn Gwarcefel gyda'r Parchedig Dyfrig Lloyd yn ŵr gwadd ac yn feirniad i'r gystadleuaeth ar wneud brawddeg o'r gair 'Dyfrig'. Allan o 70 o frawddegau, yr enillydd oedd Mary Williams, Min-y-Ffordd, gyda'i brawddeg 'Dic ymadawedig – fe roddaist inni gymaint'. Yn ail oedd Gwenyth Richards ac yn drydydd, Mary James. Diolch i bawb a gefnogodd y bingo llwyddiannus gyda Bryn Lloyd, Cwmisdwr, wrth y llyw.

Penblwydd



Ar 14eg o Dachwedd, dathlodd Sally Davies, Glanffynnon ei phenblwydd yn 90 oed a thrannoeth daeth aelodau Urdd y Benywod Pantyldefaid ynghyd i'w chartref i rannu yn y dathliad. Cynhaliwyd gwasanaeth byr gyda'r canlynol yn cymryd rhan, Mary Williams, Hefina Davies, Gwenyth Richards, Ann Jones a'r Parchedig Wyn Thomas. Yna cafwyd gwledd o ginio a phawb yn mwynhau cwmmi a difyrwch Sally sydd wedi bod yn aelod o Urdd y Benywod ers bron 80 o flynyddoedd.

CAPEL Y CWM

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Einir Ryder, Tyngrug-ganol ar gael ei dewis yn forwyn i frenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn 2009 – 2010. Ymfalchiwn yn dy lwyddiant.

Bedydd

Ar ddydd Sul olaf mis Mawrth bedyddiwyd Elis Gwion, mab bach Eleri ag Elfed Jenkins, Bryngolau, Alltyblaca, yng Nghapel y Cwm gan y Parch Wyn Thomas gyda Nanna Ryder wrth yr organ.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Nanna, Gareth, Deian ag Einir, Tyngrug-ganol, ar golli mam, mam yng nghyfraith a mamgu annwyl, sef Mrs Mair James o Dregaron.

Swydd Newydd

Croeso nôl i'r ardal i Hedydd Jones, Talar Wen, wrth iddi ddechrau fel athrawes yn Ysgol Gyfun Llanbed a hefyd i'w mam, Elenid, ar ei swydd yn Ysgol Gynradd Talgarreg.

Graddio

Graddiodd Catrin Jones, Talar Wen, o Brifysgol Aberystwyth yn ystod yr Haf. Dymuniadau gorau i ti gyda'r Ymarfer Dysgu.

80 oed

Dathlodd Jackie Ryder, Tyngrug-ganol, ei benblwydd yn 80oed yn ystod mis Awst. Gobeithio Jackie y cewch fwynhau iechyd da eto am flynyddoedd lawer.

Bedydd

Yn ystod y mis bedyddiwyd Efa Fflur, merch Elin a Marc Evans o Gaerdydd. Hyfryd oedd gweld cynifer yn y gynulleidfa yn aelodau'r teulu a ffrindiau. Wrth yr organ roedd Eleri Jenkins, Bryngolau, Alltyblaca.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm ar nos Iau, Hydref 15fed, a hyfryd oedd gweld y capel yn gyfforddus iawn gyda phobl o 3 oed i fyny. Croesawyd pawb i'r oedfa gan y gweinidog, y Parch Wyn Thomas. Roedd y capel wedi ei addurno yn brydferth iawn gan blant yr Ysgol Sul ac roedd y croeso yn un arbennig i Delyth Morgans o Aberystwyth atom i roi neges y Cynhaeaf. Diolch iddi am ei chyflwyniad rhagorol. Wrth yr organ roedd Mrs Eleri Jenkins, Bryngolau, Alltyblaca. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd rhodd i Elwyn a Mair Thomas, o Dryslwyn gan y gweinidog gan i'r ddau dathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Llun mewn ffram o'r Capel wedi ei dynnu gan Robert Blayney o Bontsian oedd yr anrheg gyda Nanna Ryder, Tyngrug Ganol wedi cyfansoddi geiriau pwrpasol.



Plant yr Ysgol Sul

Llwyddiant C Ff I

Mae Einir Ryder wedi cael tipyn o lwyddiant ym maes Siarad

Elwyn a Mair Thomas a'r gweinidog



Cyhoeddus Saesneg y C.Ff.I a chafodd lwyddiant yn Eisteddfod C.Ff.I Ceredigion yn Llanbed yn ddiweddar. Fe fu Einir, a'i ffrind Teleri, o Glwb Pontsian, yn llwyddianus yn y Ddeuawd Ddoniol ac fe fu'r ddwy lan yn Llandudno yn cystadlu yn Eisteddfod Cymru gan sicrhau yno y trydydd safle. Da iawn chi.

Taith Dramor

Llongyfarchiadau i Einir Ryder, Tyngrug-ganol, ar gael ei dewis gan C.Ff.I. Cymru i fynd allan i Seminar Gwanwyn 2010 i Serbia. Dymuniadau gorau i ti Einir ac fe fyddwn yn ysu i glywed am dy daith.

Sirian a Wyn



Coginio

Ar noson wlyb a gwyntog daeth tyrfa arbennig ynghyd i Gapel y Cwm i weld arddangosfa goginio gyda Sirian Davies o Gegin Coedlannau. Un o blant y Cwm yw Sirian ac fe'i croesawyd hi yn gynnes gan Mrs Mary Davies. Bu wrthi yn coginio amrywiol bethau erbyn y Nadolig ac fe gafodd pawb oedd yn bresennol gyfle i'w blasu ar ddiwedd yr arddangosfa. Cafodd help y gweinidog, Parch Wyn Thomas, a diolchodd yntau i Sirian am ei gwaith. Bu yn noson llwyddiannus iawn a phawb wedi cael mwynhau rhwybeth gwahanol i'r arfer heb gorfod teithio ymhell. Tynnwyd y raffl a dyma'r enillwyr:- 1. Beryl Lewin, Drefach, 2. Mathew, d/o Wyn, 3. Emrys Evans, Llanllwni, 4. Elis Jenkins, Bryngolau, 5. Margaret Thomas, Llechwedd. Diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r noson ac fe fydd Capel y Cwm yn elwa yn fawr o'r digwyddiad.

CAPEL Y FADFA



Gwyneth Lewis a rhai o aelodau Capel y Fadfa

Dathliadau

Er mwyn cael dathlu symud yn ôl i'r capel yn dilyn yr holl waith atgyweirio ar yr adeilad yn ddiweddar, cafwyd penwythnos o ddigwyddiadau nôl yn yr haf, gan ddechrau ar nos Wener, pryd y cynhaliwyd Swper y Dathlu yn y festri. Hyfryd oedd gweld cymaint yno i gael noson o gymdeithasu gyda ffrindiau. Mae ein diolch i Siwsan, Janice a Margaret am drefnu'r digwyddiad a chafodd pob math o fwyd ei weini i tua 100 o bobl a phlant. Diolch i bawb wneith gyfrannu mewn unrhyw fodd i wneud y noson yn llwyddiant.

Cynhaliwyd Cyngerdd yn y capel ar y nos Sadwrn i ddangos y capel ar ei newydd wedd, gyda Doreen Lewis, Parti'r Gannwyll a Chôr Lleisiau'r Werin yn cymryd rhan, dan arweiniad Mrs Elonwy Davies. Arweinydd y noson oedd ein gweinidog, y Parch Wyn Thomas, a gyflwynodd llywydd y noson sef Gwyneth Lewis, Caerdydd. Hi oedd Bardd Plant Cyntaf Cymru a hi hefyd a gyfansoddodd y geiriau sydd ar fur Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. Mae gan Gwyneth gysylltiadau agos iawn gyda'r capel gan fod perthnasau annwyl iawn iddi wedi cael eu claddu yn y fynwent. Cafwyd anerchiad rhagorol gan Gwyneth a oedd yn sôn am atgofion plentyndod yn dod i weld ei theulu yn y pentref. Cafwyd ganddi hefyd ddarlenniad o un o'i phenillion a oedd yn son am gloc ei mam-gu. Noson o fwynhad pur.

Prynhawn dydd Sul am 1.30 o'r gloch cynhaliwyd Gwasanaeth Pawb Ynghyd yn y capel, ac yr oedd hwn yn wasanaeth unigryw, gyda'r gweinidog yn gwasanaethu ac yn cael ei gynorthwyo gan Rhidian Thomas a Heledd Llwyd - y ddau yn cyflwyno dau ddarlenniad pwrpasol ar ddechrau'r oedfa. Cyhoeddwyd yr emynau gan Teleri Evans, Gwenllïan Thomas, Gwenllïan Llwyd a Carwyn Griffiths ac fe ddsbarthwyd y rhaglenni gan Steffan Davies. Braint oedd i'r gweinidog gael derbyn aelod newydd i'r capel yn ystod yr oedfa, sef Rhodri Davies, Gwardafolog, ac fe dderbyniodd ei gymun cyntaf o law'r gweinidog. Cafodd y gweinidog gyfle i ddiolch am y cyfraniadau ariannol a oedd wedi dod i law a hefyd fe ddiolchodd i Emlyn, Gwyn, Ronnie a Megan am eu rhodd gwerthfawr o'r carped ysblennydd sydd ar lawr y capel wedi ei roi er cof am ei rieni, Tommie a Maggie Jones a oedd mor gefnogol i'r capel yn eu dydd. Rhoddwyd glanheuw'r carped i'r capel gan Eluned Rees. Yr organyddes oedd Carol Rees. Pleserus oedd gweld cymaint wedi dod ynghyd i'r cwrdd nodedig hyn yn hanes y capel, rhai wedi teithio cryn bellter.

I orffen y gweithgareddau cynhaliwyd Cymanfa Ganu ar y nos Sul yn y Capel, pryd y cafwyd darlenniad cymwys gan y Parch

Cen Llwyd i roi ni yn barod at flas y noson. Arweinydd y gân oedd Meleri Williams a'r cyn-weinidog y Parch Alun Wyn Dafis oedd yn cyfeilio wrth yr organ. Plant yr Ysgol Sul oedd yr artistiaid ac yn ôl yr arfer yn werth eu gweld a'u clywed, pob un ohonynt â gwen siriol ar eu hwyneb ac yn gwybod eu gwaith ar lafar a chân. Y Parch Wyn Thomas wnaeth gyflwyno llywydd y Gymanfa, Mrs Lona Jones, Aberystwyth (Dolman, Gorsgoch gynt). Cafwyd gan Lona anerchiad clodwiw a rhodd hael tuag at y noson. Diolchodd y gweinidog i bawb a oedd wedi gwneud y noson yn llwyddiant, a'r penwythnos i gyd yn un hynod gofiadwy.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lyn a Catherine, Dwynant, ar enedigaeth ei merch fach a hefyd i Gerald a Kathleen, Nantgywyddau, ar ddot yn dad-cu a mam-gu unwaith yn rhagor. Yr un yw'r dymuniadau i Nick a Rhian Cormount ar enedigaeth merch fach yn ddiweddar a chwaer fach i Twm. Dymuniadau gorau i'r teuluoedd i gyd.

Radio a theledu

Braf oedd cael cyfle i wrando ar Hefin Evans, Glanrafon un waith eto yn sgwrsio ar raglen Lyn Ebeneser ar Radio Ceredigion. Gwydch o beth yw bod cyflwynwyr yr orsaf yn dod â hanes pobl leol yn ddyddiol i'n cartrefi mewn ffordd hamddenol a chysurus.

Hyfryd oedd gwranddo unwaith eto ar y Parch Caradog Evans (Awelwa gynt) yn darllen rhan o stori Tomos a Marged ar raglen "Cofio" gyda John Hardy ar Radio Cymru. Mae gan Caradog ddawn dweud arbennig. Balch ydym i ddeall hefyd bod Caradog yn well yn dilyn salwch yn ddiweddar.

Erbyn hyn mae Helen Davies, Penffynnon, yn gweithio fel newyddiadurwraig i raglen Hacio ar S4C. Mae ei gwaith yn amrywio o ymchwilio a fflmio i ohebu. Gallwch weld y gyfres newydd o'r rhaglen Hacio bob nos Fawrth ar S4C. Dymunir pob llwyddiant i Helen gyda'r gwaith hyn yn y dyfodol.

Yn ddiweddar yr oedd Carwyn Griffith, Y Glyn, wedi cyrraedd y rownd derfynol i gymryd rhan mewn drama newydd o'r enw Pentalar sydd yn mynd i gael ei darlledu ar S4C yn Hydref 2010. Yn anffodus ni fuodd yn llwyddiannus y tro hwn ar ôl dod lawr i'r ddau olaf. Disgybl yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Teifi yw Carwyn a gobeithir y bydd yn dal ati yn y dyfodol ym mynd yr actio, a phob lwc iddo.

Eisteddfodau

Llongyfarchiadau i Megan Jones, Gwylfa (gynt) ar gael ei hethol yn Gadeirydd Cenedlaethol Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas a gynhaliwyd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala.

Cymanfa

Balch yw cael cyhoeddi mae un o bobl ifanc Capel y Fadfa oedd llywydd y prynhawn yn y Gymanfa Ganu eleni, sef Carol Rees (Nantgywyddau gynt). Er bob Carol erbyn hyn wedi symud i fyw i Gwmsychbant, nôl i Gapel y Fadfa y daw yn ei thro i chwarae'r organ ac i fynychu'r oedfaon. Mae'r teulu cyfan yn gefnogol iawn i'r capel ac i bob dim sydd yn digwydd yn yr ardal. Trefnydd y dydd, y Parch Cen Llwyd, a gyflwynodd Carol, ac fe gafwyd anerchiad pwrpasol ganddi yn son am ei plentyndod yn mynd i'r Ysgol Sul a'r Gymanfa gyda'i mam-gu sef y diweddar Mrs Annie Evans, Dwynant. Derbyniodd pwyllgor y Gymanfa rodd hael gan Carol. Yn ystod oedfa'r

Glyn Cothi y gwrthryfelwr: Cofio un o'r radicaliaid amlyca'

Dros ddau gan mlynedd yn ôl cafodd un o arwyr Undodiaeth yng Nghymru ei garcharu am bregethu egwyddorion rhyddid meddwl. Euros Lloyd, newyddiadurwr gyda gwefan Golwg 360, sy'n pwysu a mesur cyfraniad Tomos Glyn Cothi.

Ganwyd Tomos Glyn Cothi, neu Thomas Evans, ar 20 Mehefin 1764 yn fab i Ifan a Hannah Evans yng Nghapel Sain Silin ger Brechfa, Sir Gâr. Gwehydd oedd ei dad a ddylanwadodd ar Tomos Glyn Cothi i feddwl drosto'i hun a phrynodd lawer o lyfrau ar grefydd ryddfrydol i Tomos Glyn Cothi gael eu darllen a dadansoddi eu syniadau. Er mai Calfiniaeth oedd prif ddylanwad crefyddol ei ardal, gwrth-drindodiaeth oedd y llwybr a ddilynodd Tomos Glyn Cothi. Roedd Tomos Glyn Cothi yn cerdded deuddeg milltir i Alltyblaca bob dydd Sul i wrando ar neges gwrth-drindodaidd Dafydd Dafis, Castell Hywel. Gelwid Tomos Glyn Cothi yn 'Priestley bach' oherwydd dylanwad gwaith Josph Priestley ar ei gredoau crefyddol.

Fel oedolyn dechreuodd Tomos Glyn Cothi bregethu yn nhŷ ei rieni yng nghanol yr 1780au, ac erbyn 1792 adeiladwyd capel iddo yng Nghwm Cothi. Yn anghydfurfiwr a rhyddfrydwr roedd ganddo farn ar lawer o drafodaethau'r cyfnod. Roedd yn heddychwyr mawr ac anghytunai gyda'r rhyfel yn erbyn Ffrainc.

Cefnogodd Tomos Glyn Cothi'r Chwyldro Ffrengig fel nifer eraill o ryddfrydwr Cymru. Nid rhyfedd felly fod llywodraeth Prydain yn ei ystyried yn radical. Daeth hyn yn amlwg yn 1801 pan gafodd ei garcharu am ddwy flynedd am iddo gael ei gyhuddo o ganu cân rhyddid, sef 'The Hymn to Liberty'. Y geiriau canlynol oedd cynnwys y gân honno:

*And when upon the British shore
The Thundering guns of France shall roar,
Vil George shall trembling stand
Or fly his native land,
With terror and Appal,
Dance Carmagnol, Dance Carmagnol.*


Dechreuodd y cyfan ar y 5 Mai 1801, pan gynhaliwyd 'cwrw bach' ym Mrechfa, sir Gâr, i godi arian i Thomas Joseph, aelod o gynulleidfa Glyn Cothi. Yn ystod y diwrnod trefnwyd raffl, ond cynhaliwyd y raffl yn ystod absenoldeb Tomos Glyn Cothi. Amheuwyd George Thomas, a gynhaliodd y raffl, o sicrhau fod ei ffrind yn ennill un o'r gwobrau, sef oriawr Thomas Joseph. Felly, penderfynodd Tomos Glyn Cothi - er mwyn sicrhau tegwch - gynnal y raffl unwaith eto i bawb. Mae'n werth nodi bod George Thomas wedi cael ei ysgymuno allan o gynulleidfa Tomos Glyn Cothi. Wedi'r digwyddiad gyda'r raffl, targedwyd George Thomas trwy ganeuon, ac ymadawodd yn amlwg yn anhapus. Canlyniad hyn oedd i George Thomas, mae'n ymddangos, geisio dial ar y rhai a'i bechodd. Gwnaethpwyd cwyn swyddogol i'r awdurdodau yn erbyn Tomos Glyn Cothi, Daniel Evans a Daniel Jones am ganu'r gân a nodir eisoes gyda'r geiriau o natur

fradwrus. Gwadodd Tomos Glyn Cothi'r cyhuddiad yma, ond roedd yr awdurdodau yn ymwybodol o'i gefnogaeth i'r chwyldro Ffrengig. Ymddangosodd o flaen y Sesiwn Fawr yng Nghaerfyrddin ac er y gefnogaeth a gafodd gan nifer yn y gymdeithas, yn enwedig Iolo Morganwg, cafwyd ef yn euog o fynd yn groes i'r frenhiniaeth. Yn ôl Geraint Dyfnallt Owen, credai nifer fod Tomos Glyn Cothi wedi cael ei dargedu a'i garcharu er mwyn pardduo ei enw a'r mudiad Undodaidd. Mae Geraint H. Jenkins yn awgrymu bod 'show trials' yn nodweddiadol o'r cyfnod. Yn sicr mae'n deg i ddisgrifio prawf Tomos Glyn Cothi yn y modd hwn. Roedd yn gyfle rhy dda i'w wrthwynebwyr golli er mwyn cwtogi ei ddylanwad, ac yn gyfle i'r awdurdodau greu ofn ymysg cefnogwyr Tomos Glyn Cothi a phobl o'r un syniadaeth ag ef.

Dywedodd y barnwr, George Hardinge, wrth Tomos Glyn Cothi tra'n ei ddedfrydu:

You have been convicted of a most infamous libel....against His Majesty – the most inoffensive person within the realm....he is the most innocent, the best man and the best character in the Kingdom....but you are a man of very bad and dangerous disposition....If any in this court were to be at the mercy of your loyalty, I am afraid he would be badly off.

Dedfrydodd y barnwr Tomos Glyn Cothi i gyfnod o garchar am ddwy flynedd. Ychwanegai o fewn yr amser hynny y byddai'n gorfod sefyll mewn rhigod yn nhref Caerfyrddin unwaith bob blwyddyn o'i garchariad. Dywedir nad oedd profiad y rhigod yn rhy ddrwg i Tomos Glyn Cothi, mewn cymhariaeth â beth oedd rhai yn dioddef tra yn yr un sefyllfa, gan fod un o'i ferched yn bresennol gydag ef ac yn ennyn cydymdeimlad iddo. Roedd sôn fod torf o bobl wedi troi ar un wraig am iddi luchio rhywbeth tuag at Tomos Glyn Cothi tra yn y rhigod. Felly gwelwn fod mwyafrif trigolion Caerfyrddin yn gefnogol i'r gŵr yma. Ymdrechodd Iolo Morganwg i ennyn cefnogaeth iddo, ond roedd yna deimlad ei fod wedi peryglu llwyddiant yr achos oherwydd ei orddweud am rifau tystion a



gefnogai fersiwn Tomos Glyn Cothi. Honnodd lolo Morganwg fod yna ugain yn tystio i ddiniweidrwydd Tomos Glyn Cothi, ond yn yr achos tri oedd yn bresennol i'w gefnogi. Ysgrifennodd Theophilus Lindsey at Tomos Glyn Cothi, wedi ei garchariad ef, yn argymhell iddo sicrhau bod lolo Morganwg yn cwtogi ar ei gyhoeddiadau ynglŷn â'r achos llys, oherwydd pryder y gallai ei feirniadaeth effeithio ar ei driniaeth yn y carchar, ac oherwydd y gallai'r awdurdodau targedu lolo Morganwg am yr hyn a ddywedai. Dilynodd Tomos Glyn Cothi argymhelliad Lindsey mewn llythyr at lolo Morganwg. Dyfynnir geiriau Lindsey at lolo Morganwg yn y llythyr:

I hope he will refrain from publishing anything of the kind he mentions in your defence, as it would contribute to make your confinement more rigorous if possible and increase prejudices against you, and not improbably send him to the like confinement.



Y Chwyldro Ffrengig

Ychwanegodd Glyn Cothi anfodlonrwydd dau gyfreithiwr o Fryste ynglŷn â gor-ddweud lolo Morganwg:

I have received your favour from Bristol and am much obliged to you for your exertions in my favour but am sorry to hear that the account you gave to the gentlemen at Bristol does not perfectly agree with the briefs which were sent up by Mr Brown on the request of Mr Jarman. I am afraid that they are rather displeas'd at the different statements.

Tra yn y carchar dywedid bod Tomos Glyn Cothi wedi digio ac o'r farn fod rhai o'i gyfeillion a'i gyd Undodiaid wedi cefnu arno wedi'r achos llys a'i garchariad. Gwelir hyn yn



Yr Hen Dŷ Cwrdd yn Aberdar

cael ei drafod mewn llythyr gan Hannah Lindsey, sef gwraig Theophilus Lindsey:

There is in Thomas Evans an unsubdued resentful mind not only against his Judge and persecutors, but against those who would not stand forward and protect him as a Unitarian. All his letters to Mr. Lindsey since he wrote to him on his first commitment seem to have cancelled in his mind all the kindness which first gave rise to his exertions, and since his imprisonment has been by himself and friends his chief support.

Dywedir ei fod wedi dod allan o'r carchar yn unig ac yn ofnus, heb gynulleidfa oherwydd erledigaeth, a hefyd heb eiddo, a oedd wedi ei werthu fel cymorth ariannol i'w deulu. Nid oedd Tomos Glyn Cothi mor llafar ei farn wedi ei ryddhau gan fod ofn arno y byddai'n cael ei dargedu a'i garcharu unwaith eto, ond yn sicr roedd ei syniadau crefyddol a gwleidyddol heb newid. Er y cam a gafodd Tomos Glyn Cothi pan garcharwyd ef, y digwyddiad hwn a ysbrydolodd y mudiad Undodaidd i sefydlu'r Gymdeithas Undodaidd yn 1802, gyda'r bwriad o warchod aelodau'r mudiad. Daeth Tomos Glyn Cothi yn symbol o'r rhagfarn a'r gormes a wynebai Undodiaid yn y cyfnod yma. Gan gofio fod Undodiaid yn credu'n gryf mewn rhyddid meddwl, yr oedd eu bywydau'n anodd wrth iddynt gael eu cosbi am unrhyw syniadau a oedd yn groes i feddylfryd y llywodraeth, y frenhiniaeth a'r Eglwys.

Yn 1811 derbyniodd alwad i wasanaethu yn Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr a chynorthwyo ym Merthyr. Cyhoeddodd gasgliad o emynau ar gyfer addoliad Undodaidd yn yr un flwyddyn.

Cyfieithodd Tomos Glyn Cothi nifer o weithiau Undodiaid blaenllaw yn Lloegr, megis Priestley, Belsham, Franklin, Wright a Carpenter, i'r Gymraeg er mwyn addysgu ei gyd-Undodiaid Cymreig am ddiwinyddiaeth a syniadau mwyaf diweddar y mudiad. Roedd Tomos Glyn Cothi fel nifer eraill o'r Undodiaid yn credu'n gryf mewn addysg a gwelwyd hyn yn amlwg o ran Tomos Glyn Cothi wedi iddo dreulio'r amser yn y carchar yn ysgrifennu geiriadur Saesneg-Cymraeg, gyda'r bwriad o roi cymorth i'r werin gyda'u darllen.

Aeth Tomos Glyn Cothi yn ôl i'w waith ysgrifenedig gan gyfansoddi emynau, barddoniaeth, traethodau a phregethau. Ar ddiwedd ei oes yn 1833 roedd Tomos Glyn Cothi wedi cyhoeddi dros ugain o lyfrau a dywedai fod y gwaith i gyd 'er gwasanaeth i ddyd a gogoniant i Dduw.' Roedd yn ffigwr bwysig i'r mudiad Undodaidd yn nyddiau gormesol i'r grefydd. Disgrifiodd Hywel M. Davies Tomos Glyn Cothi fel:

Of the Welsh dissenters and democrats of the period of the French Revolutionary and Napoleonic wars, Evans was the most sustained and persistent in his radicalism.

Cyfrannodd Tomos Glyn Cothi yn fawr i'r mudiad ac ni ellir ei feirniadu am beidio â pharhau i leisio ei farn wedi iddo adael y carchar gan y byddai'n sicr wedi wynebu cyfnod arall yn y carchar. Ond roedd ei waith llenyddol yn parhau i fod yn bwysig trwy gydol ei oes. Parhaodd i ledu'r neges Undodaidd ar draws de Cymru trwy ei bregethu, ac ystyriwyd ef yn ffigwr ysbrydoledig i'r mudiad Undodaidd oherwydd roedd cymaint o sylw wedi cael ei wneud adeg ei garchariad â'r driniaeth annheg a dderbyniodd. Roedd yn un o ffigurau Undodaidd blaenaf Cymru yn ei gyfnod oherwydd ei waith llenyddol a'i ymdrech i ledu neges y mudiad.

Nabod rhywun yn y llun?



Fe wnaeth sawl un gysylltu gyda'r Ymofynnydd wedi gweld y llun o daith cynulleidfa Undodaidd Capel Highgate, Llundain, i Hastings yn 1949. Roedd un o'r rhai a gysylltodd, Denzil Davies, yn gallu cynnig enwau ar gyfer nifer o'r rhai yn y llun. Felly, dyma gynnwys rheiny yn y rhifyn yma. Mae Denzil Davies yn byw yn Bedford erbyn hyn, ond mae'n dod yn wreiddiol o Teifi House, Alltbylaca. Diolch yn fawr iddo ef, ac eraill, am gysylltu. A chofiwch, os oes gyda chi lun o'r gorffennol yr hoffech chi ei gynnwys, cofiwch gysylltu, er mwyn i ni gael y stori y tu ôl i'r llun hefyd.

Rhes flaen:

1. Gŵr y ferch rhif 25 (y ddau yn rieni i'r ferch, rhif 8)
2. Mam Sulwen, rhif 21 – yr organyddes yn aml iawn
6. Brawd Ofin, rhif 29

Rhes 2:

11. Mrs R.O Jones – gwraig Dr R.O. Jones (wedi symud i Gaerdydd yn yr 1960au)
15. Jenkin Jones (Shanco), Frongelyn, Cribyn. Fe wnaeth adael y banc i fynd nôl i ffermio yng Nghribyn, wrth gwrs.
16. Megan (New York), Cwmann. Roedd hi'n chwaer i Gwilym Davies oedd yn reolwr ar siop Harrods. Roedd Gwilym hefyd yn chwarae'r organ yn y capel yn achlysurol.

Rhes 3:

18. Meredith (Metal Box) Capel y Groes
19. Dilys Watch – merch Watchmaker Llandysul

20. Gwyn Jones – brawd Oriel Jones, y cigydd. Nid oedd yn Undodwr, ond roedd yn chwarae rygbi gyda Denzil
21. Sulwen, yr orangyddes
22. Denzil Davies
23. Mam y ferch, rhif 4
24. Morfudd Evans (wnaeth anfon y llun at 'Yr Ymofynnydd' yn y lle cyntaf)
25. Gweler Rhif 1.

Rhes 4:

- 27: John Griffiths, Gogoyan, Llanddewi (perthyn i deulu Llwynifan)
- 28: Ray Davies – chwaer 'Sali Welsh', Cellan
- 29: Ofin Howells
- 30: Mari Howells, gwraig Ofin (o Gribyn)
- 31: Ceidwad Capel Highgate
- 32: Swyddog y gynulleidfa Saesneg yn Highgate

Tanysgrifio ar gyfer llyfr o waith Elwyn Davies

Yn ystod Mis Mawrth mae teulu'r diweddar Ddr Elwyn Davies yn bwriadu cyhoeddi llyfr o'i waith. Bydd y gyfrol yn cynnwys myfyrdodau a gyhoeddwyd mewn dau lyfryn o'r blaen, sef 'Be Gentle' a 'Be not afraid', a hefyd nifer o'i emynau Saesneg nas cyhoeddwyd o'r blaen. Bydd y llyfr tua 150 tudalen mewn maint, gyda darlenniadau/ myfyrdodau addas at bob math o achlysuron. Os hoffech archebu copi o flaen llaw y pris yw £5.50, ac argraffir eich enw yn rhestr y tanysgrifwyr. Os oes gennych ddiddordeb danfonwch nodyn ataf cyn diwedd Mis Ionawr os gwelwch yn dda - Alun-Wyn Dafis, 2 Morfa Gwyn House, Cei Newydd, SA45 9SB.

Cyfle i ddarllen am y 'Tir Da'



Parch Eric Jones ac Elin Jones, A.C.

Dair blynedd yn ôl, cyhoeddwyd llyfr wedi ei baratoi gan y Parch Eric Jones ar leoliad hen gapeli a manau addoli yr Undodiaid yng Nghymru.

Nid llyfr hanes mohono ond mae yn cynnwys cefndir a rhoi lleoliad y manau hynny sydd mewn perygl o gael eu anghofio, Yn y rhifyn hwnnw, dan y teitl "Gerddi Ffydd", cafwyd gwybodaeth am ryw 30 o lefydd o'r fath o Ysgubor Newydd yng Ngwent, Blaengwrach, Dowlais a Phenybont ym Morgannwg; Rhydydd, Panteg a Pharcyfelefed yn Sir Gaerfyrddin ac Aberaeron, Castell Hywel a Brynlllefrith yng Ngheredigion.

Cafwyd derbyniad da i'r gyfrol honno a gwerthwyd yn helaeth yn Lloegr a thu hwnt gan taw yn Saesneg yr ysgrifenydd y llyfr gyda'r bwriad o estyn gwybodaeth i'r di-Gymraeg am leoliadau Undodaidd yng Nghymru.

Wedi hynny, gofynwyd am wybodaeth ynglŷn â chapeli sydd yn dal i gynnal gwasanaethau yng Nghymru ac fe aethpwyd ati i gasglu gwybodaeth ar gyfer cyfrol newydd dan y teitl "Y Tir Da"/"The Good Ground".

Yn y gyfrol hon a gyhoeddwyd ym Mis Hydref eleni, ceir cefndir a chyfarwyddiadau ynglŷn â lleoliad ein capeli presennol. Mae'r lluniau mewn lliw a chyfle eto i'r di-Gymraeg ac Undodiaid Lloegr a thu hwnt i ymweld â rhai o'n capeli yng Nghymru pan fyddan nhw yn yr ardal. Ceir ynddo luniau hyfryd ac yn barod, cyfeiriwyd at ffenestri lliw Pantydefaid, nenfwd capel Cribyn, ysblander Ciliau Aeron, lampau golau yng Nghapel y Groes, ffenestr gefn Brondeifi, Modiwlator Sol-ffa Cwmsychbant a llawer mwy.

Mae'r ddwy gyfrol ar gael o hyd ac erbyn i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd ddarllen y geiriau hyn, fe fydd pob capel wedi derbyn cyflenwad o'r llyfr ar gyfer gwerthu.

Pris y ddwy gyfrol yw £5.00 yr un ac fe ellir eu cael yn uniongyrchol oddi wrth y Parch Eric Jones, 14 Clifton St., Aberdar CF44 7PB.

COLOFN DYLAN IORWERTH



Cân y Gwyddel a'r gragen wag

Un o gyngherddau mwya' cofiadwy 2009 oedd un gan Christy Moore yn Aberystwyth.

Fo ydi'r Gwyddel meddal ei lais, sy'n gyfuniad o dynerwch, hiwmor a dicter ac un sy'n gallu gosod ei steil ei hun ar bob cân y bydd yn ei chanu.

Mae yna un am ferch sydd mor ysgafn ag adain gwenyn, neu am Lisdoonvarna, lle bydd hen lanciau lwerddon yn casglu i chwilio am wraig.

Ac mae yna un hefyd am y 'Magdalene Laundries', y llefydd dychrynlyd lle'r oedd 'merched drwg' yn cael eu hanfon i fyw a marw, dan ofal caled yr Eglwys Babyddol.

Roedd y tai golchi hynny'n perthyn o ran ysbryd i'r cartrefi maeth sydd yn y penawdau yn lwerddon heddiw a'r cam-drin ofnadwy oedd wedi digwydd i blant yno – yn gorfforol, yn rhywiol ac yn seicolegol hefyd.

Bron cymaint â sgandal y cam-drin ydi'r ffordd y cafodd y cyfan ei guddio, a'r eglwys ac awdurdodau lwerddon yn cynllwynio i gadw pethau'n dawel. Roedd offeiriad yn cael rhwydd hynt i gam-drin – o barchedig ofn at yr eglwys.

Mae yna lawer o wersi i'w dysgu o drychineb o'r fath. Un ohonyn nhw ydi'r peryg pan fydd trefn a chyfundrefn yn mynd yn rhy gry' a sefydliadau'n dod yn bwysicach na'r peth byw.

Mae fel gweld hen gragen malwoden. Un tro, roedd yna greadur o'i mewn, yn symud, yn anadlu a bwyta. Mae hen gragen yn edrych yr un peth ac yr un mor galed ag erioed, ond gwag ydi hi, heb ddim byd byw ar ôl.

Yn achos lwerddon, roedd yna lysnafedd gwenwynig yn y gragen ond mae'r un broses yn gallu digwydd, ar lefel wahanol, ac ar raddfa wahanol, yn ein bywydau ni i gyd. O bleidiau gwleidyddol i gapeli i gymdeithasau, mae cregyn yn gallu gwagio.

Dau beth sy'n gwneud i lais Christy Moore galedu – anghyfiawnder ydi un, a rhagrith ydi'r llall. A dyna broblem y gragen wag – mae'n ymddangos yn hardd ond yn cuddio'r gwacter tu mewn.

Dyna pam ei bod mor ddiddorol clywed am gynulleidfa Undodaidd yng ngogledd Cymru sydd, hyd y dealla' i, yn ceisio gweithredu heb ddim o'r pethau swyddogol arferol. Dim swyddogion, dim trefn ffurfiol, dim adeilad eu hunain.

Mae'n amlwg eu bod nhw'n trio canolbwyntio ar y peth byw – ar yr ochr ysbrydol, ar yr angen am droi cefn ar fateroliaeth ofnadwy ein dyddiau ni. Ac, yn ôl y Testament Newydd, mi wnaeth lesu yr un peth.

Mi allwch weld apêl y syniad. Cyfarfod i feddwl neu addoli, heb y cecru sy'n gallu tynnu'n sylw ni'n llwyr. Cecru am adeiladau ac arian, fynycha', neu boeni gormod am bethau bach dibwys, dibwynt.

Wrth gwrs, ar y pryd, mae'r pethau yma'n edrych yn fawr – yn union fel y mae'r gragen wag yn edrych yn gadarn a solet. Y neges o'r gogledd – a gan enwadau fel y Crynwyr – yw nad ydyn nhw ddim.

A ninnau fel pob enwad arall yn wynebu sawl her, mae'n beth da cael ein gorfodi i feddwl yn galed beth sy'n bwysig. Dyma fersiwn o ddifri' o'r hen gwestiwn difyr hwnnw – beth fyddech chi'n ei achub petai'r tŷ ar dân? Yr un peth na fedrech chi fyw hebddo.

Beth fyddai ein dewis ni?

Adeilad a dim byd arall – dim cred, dim cwmni'ath, dim hanes? Arian – nid y fflam, nid syniadau fel cyfiawnder a thrugaredd a chariad?

Ein rhyddid ysbrydol fyddai fy newis i. Gyda hwnnw, mae popeth arall yn bosib. Fe allen ni ail-greu popeth arall.

Trwy lwc, mae ein capeli ni'n para'n fwy na chregyn gwag ac mae gyda ni'r cyfle i'w chadw hi felly hefyd. Cyfle, ond nid sicrwydd.

Mae gan y gragen wers – y peth pwysig ydi gwarchod y peth byw, nid y gorchudd tu allan. Y pethau o dragwyddol bwys, nid y pethau bach arwynebol.

prynhawn yr oedd plentyn o bob capel yn cyhoeddi emyn a thros Capel Y Fadfa, tro Carwyn Griffiths, Y Glyn, oedd hi eleni. Cafodd glod mawr am adrodd yr emyn gyda llais eglur. Hefyd fe wnaeth Gwenllïan Llwyd, Tŷ'r Ysgol adrodd emyn ar ran Capel Brondeifi.

Cwrdd Undebol



Anna Phillips yn cyflwyno sic i Glan Davies

Cynhaliwyd Cwrdd Undebol y Gymdeithas Undodaidd ardal y Smotyn Du yng Nghapel y Fadfa ar ddydd Sul nôl ym mis Hydref. Croesawyd pawb i'r oedfa gan y gweinidog. Hyfryd oedd cael cwmni'r Parchedigion Eric Jones, Cen Llwyd ac Alun Wyn Dafis. Rhannwyd y cymun yn ystod yr oedfa a neilltuol oedd gweld cymaint wedi dod ynghyd. Nôl yn yr haf trefnwyd taith gerdded nodedig gan y Gymdeithas a braf oedd cyflwyno sicciau yn ystod yr oedfa i ddwy elusen. Cafwyd anerchiad bywiog gan yr enwog Glan Davies ar waith Nyrs Calon, Ceredigion ac am waith Sefydliad y Galon gan ei fod yn wirfoddolwr cydwybodol gyda'r elusen. Cyflwynodd Mrs Anna Phillips, Trysorydd y Gymdeithas, sic o £1,813.13c i Glan – rhan o'r arian a godwyd adeg y daith gerdded, ynghyd â sic o £600 i Eryl Jones tuag at waith Yr Ymofynnydd. Yr organyddes oedd Mrs Carol Rees. Yn dilyn yr oedfa cynhaliwyd Pwyllgor gwaith y Gymdeithas dan lywyddiaeth Mrs Ann Harries. Yn ystod y cyfarfod blynyddol hwn cafwyd adroddiadau gan swyddogion y gwahanol bwyllgorau sydd yn dod dan adain y Gymdeithas, pob adroddiad yn nodi bwrwm y weithgareddau. Tymor llywyddiaeth y Gymdeithas yw dwy flynedd, a daeth cyfnod Mrs Ann Harries i ben a thröglwyddwyd yr awennau i'r Cynghorydd Haydn Richards o Capel y Groes am y ddwy flynedd sydd i ddod. Talwyd teyrngedau lu i Mrs Ann Harries am ei gwaith rhagorol yn ystod ei chyfnod fel Llywydd a dymunodd y Parch Cen Llwyd yn dda i'r Llywydd newydd. Fe aeth pawb i'r festri wedyn i fwynhau'r wledd a oedd wedi ei baratoi gan wragedd Capel y Fadfa.

Diolchgarwch

Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch y plant ar fore Sul ym mis Tachwedd yn y Festri. Yr oedd y gweinidog a phlant a phobl ifanc yr Ysgol Sul yn estyn croeso cynnes i bawb. Yn ystod y gwasanaeth bu'r plant a'r bobl ifanc yn rhannu salad o ffrwythau ffres fel arwydd o ddiolch am y cynhaeaf. Bendigedig oedd gweld y plant yn perfformio ar lafar a chân, a phob un yn gwneud eu gwaith gyda graen. Cyflwynodd y gweinidog dystysgrifau'r arholiad i'r plant, a chyflwynodd dystysgrifau croeso i dair merch fach sydd wedi cychwyn yn yr Ysgol Sul yn ddiweddar. Cafwyd gwasanaeth Carol Rees ar y piano a Catrin Evans ar yr allweddellau. Diolchwyd i Enfys Llwyd am ei gwaith rhagorol ar hyd y blynyddoedd yn yr Ysgol Sul gan y Parch Wyn Thomas.

Ar y drydedd nos Fawrth ym mis Hydref cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch Capel y Fadfa, pryd y cafwyd presenoldeb Miss Beth Davies, Gorrige, i wasanaethu. Croesawyd y wraig wadd gan y gweinidog. Cafwyd anerchiad grymus gan y wraig wadd. Braf oedd gweld bod cymaint wedi dod ynghyd. Yr organyddes oedd Mrs Carol Rees.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Johnnie a Sally Jones, Brynhyfryd, ar ddathliad eu priodas aur yn ddiweddar

Gwellhad buan

Yr ydym am ddymuno gwellhad llwyr a buan i'r holl aelodau a ffrindiau'r achos sydd ddim wedi bod yn iach dros y misoedd diwethaf.

Cydymdeimlo

Fel aelodau yr ydym am estyn ein cydymdeimlad dwysaf â phawb â chysylltiad â Chapel y Fadfa sydd wedi colli perthnasau a ffrindiau yn ystod y misoedd diwethaf. Yr ydym yn meddwl amdanoch yn eich galar a'ch colled.

CAERONNEN

Pawb Ynghyd

Roedd cynulleidfa o bell ac agos wedi dod i'r Cwrdd Pawb Ynghyd ar ddydd Sul 27ain o Fedi. Roedd y gwasanaeth yn ngofal y Parch Cen Llwyd, ac fe chwaraewyd yr organ gan Mrs L Davies, Caerdydd.

Diolchgarwch

Nos Sul y 18fed o Hydref, bu ein Cwrdd Diolchgarwch, a'r pregethwr eleni oedd y Parch Eric Jones, Aberdar. Diolchwyd iddo am ei neges ac am chwarae'r organ gan ein gweinidog, y Parch Cen Llwyd. Diolch i bawb am gefnogi. Edrychwn ymlaen am y Gwasanaeth Golau'r Gannwyll ar nos Sul, y 27ain o Ragfyr, am 5 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

CRIBYN

Cydymdeimlad

Ar ddydd Sul, 12 Gorffennaf, bu farw un o aelodau hynaf y capel sef Mr Daniel Davies, Bannau Teifi, Llanbedr Pont Steffan - priod y diweddar Mrs Sally Davies. Drwy gydol ei oes bu'n ffermio yn Rhydybannau, Cribyn. Cydymdeimlwn â Tom, Bethan, Rhian a Emyr, Pensarnfach a John, Bethan, Brynmor a Sara Rhydybannau. Estynnir hefyd yr un cydymdeimlad at y ddwy ferch, June a Jane a'u teuluoedd. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Gwener, 17 Gorffennaf, ac fe wasanaethwyd gan y Parchedigion Cen Llwyd, Goronwy Evans a Kevin Davies

Cydymdeimlwn gyda Margaret Evans, Bronygaer, a'i chwiorydd Heulwen a Yvonne, sef merched y diweddar Jack a Rhiannon Evans, a'u teuluoedd wedi marwolaeth eu brawd, Brian Evans. Bu farw ar fore Sul, 13 Medi, ac fe gynhaliwyd yr angladd yn Amlogsgfa Aberystwyth ar y dydd lau canlynol. Claddwyd ei llwch ym Mynwent Capel Bethel, Parcyrhos, Cwmann. Gwasanaethwyd gan y Parch Cen Llwyd.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Nancy Evans, Gerlan a Mr Iwan Davies, Glennydd wedi marwolaeth eu cyfnither, sef Miss Bessie Hughes, yn enedigol o Giliu Aeron. Bu farw ar 22 Medi ac fe gynhaliwyd yr angladd yn Amlogsgfa Aberystwyth ar 29 Medi. Gwasanaethwyd gan y Parch Cen Llwyd a Goronwy Evans Claddwyd ei llwch ym mynwent Capel Cribyn ar ddydd Sul 25 Hydref. Cydymdeimlwn gyda eu holl berthnasau - yn arbennig y ddwy chwaer, Annie ac Aeron sydd yn preswyllo ym Min y Mor, Aberaeron.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Mrs Rhiannon Jones, Fronowen (Frongelyn gynt) ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Evan Jones, Emlyn House sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais.

Gwellhad buan i aelodau a ffrindiau'r capel sydd wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ffion Rees, Treforgan, Caerdydd ar basio arholiadau Gradd 5 yn canu a Gradd 5 yn chwarae piano gyda marciau uchel, o dan y Coleg Cerdd Brenhinol. Pob lwc i'r dyfodol.

Urdd y Benywod

Dechreuwyd rhaglen y gaeaf ar nos Fawrth, 15fed o Fedi. Ein gwsteion gwadd eleni oedd gwragedd Bwlchfadfa. Y siaradwr gwadd oedd Alun Jenkins. Mae Alun yn adnabyddus fel digrifwr, pencampwr ar adrodd digri ac mae'n cyfrannu'n gyson at raglenni ar Radio Ceredigion. Maen nhw'n dweud fod chwerthin yn eli i'r galon a dyna a gawsom – dôs dda o hiwmor a chwerthin. Gyda'i ganiatâd hoffem rannu peth o'r hiwmor yma. Dyma'r penillion a gyfansoddwyd i wragedd Urdd Benywod Cribyn.

*Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd
Pwy fydd yn y Ffestri hon?
A fydd Urdd Benywod Cribyn
Yn dal yn griw bach hapus llon?
A fydd bwrlwm yn y pentre'
Pawb yn llawn o hwyl a sbri
A fydd iaith y werin annwyl
Yn atsain fel 'n yr oes a fu?*

*Pwy fydd yma'n troedio'r llwybrau
Pwy fydd yn y garej fach?
Ac yn yr eglwys a'r capel
A fydd crefydd yn fyw ac iach?
Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd
A dyma yw fy ngobaith i
Y bydd Cymry yma'n adrodd
Hanes oes ein dyddiau ni.*

Mae Alun wedi cael tipyn o lawdriniaeth oherwydd ei fod wedi dioddef o Glefyd y Galon, a'i ffordd o ddiolch am gael gwellhad yw drwy gasglu tuag at Ymchwil i Glefyd y Galon. Felly fe wnaed casgliad ar y noson tuag at yr achos yma ac y mae pob ceiniog y mae'n ei gasglu yn cael ei roi i'r achos.

I orffen y noson paratowyd lluniaeth gan Eurwen Davies, Mattie Evans a Cynthia Griffiths.

CAPEL Y BRYN

Profedigaethau

Bu farw Dilwen Thomas o Aberystwyth a Fawrth 16eg, 2009. Claddwyd yng Nghapel y Bryn ar Fawrth 25ain. Y Parch. Wyn Thomas a Stephen Morgan fu yng ngofal y wasanaeth. Mrs Sharon Long bu'n gwasanaethu wrth yr organ. Bu Dilwen yn chwarae'r organ yn y capel pan yn ifanc.

Hefyd, bu farw Griff Jenkins (Griff y Go') ar Fehefin 16eg 2009 ac fe'i gladdwyd yng Nghapel y Bryn ar Fehefin 20fed. Y Parch. Wyn Thomas a'r Parch. Alun Wyn Dafis oedd yng ngofal y wasanaeth. Cyfansoddwyd cerdd hyfryd gan y Parch. Alun Wyn Dafis a darlennwyd hon yn y wasanaeth er cof am Griff (fe'i gwelir isod).

I GRIFF

Mae'r Efail ger Tanrallt yn dawel heddi',
Y Gof sy'n huno, draw ar dir y Bryn,
Fe gaewyd pennod arall yng Nghwrtnnewy'
A thlotach wedi heddiw'r llwybrau hyn.
Gwasanaethu'r fro a fu ei orchwyl,
I weld o hyd bydd gwaith ei ddwylo mad,
Y dwylo cedyrn gyda'r ha'rn a'r morthwyl,
A'r dyner law fu'n gwarchod gwenyn gwlad.
Rhown ddiolch am gael 'nabod un arbennig,
Arhosed yr atgofion yn ein byw,
A sylweddolwn fod ein hardal wledig,
Yn colli un a roddai iddi liw.
Ond er fod tan yr efail wedi oeri,
Mae'r fflam gynhaliodd Griff yn dal i losgi.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r ddau deulu uchod.

Gymanfa Ganu

Naomi Fflur bu'n adrodd ar ran y Capel eleni. Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel y Groes.

Gymanfa Bwnc

Bu Mrs Sharon Long yn un o'r panel a fu yn olrhain digwyddiad cofiadwy yn eu bywydau yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghribyn. Bu tri aelod yn siarad ac yna cafodd y plant a'r gynulleidfa y cyfle i ofyn cwestiynau iddynt hwy.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau gwresog i Huw Evans, Alltgoch, ar ennill Cadair Eisteddfod Aberteifi am y pedwerydd tro eleni. Tipyn o gamp yn wir!
Cafodd hefyd lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala a'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.
Dal ati Huw!

Priodas

Priodas dda i Eirian Davies, Nantclawdd Uchaf, Cwmduad, a Gavin a briodwyd yn y capel ar Awst 8fed. Carys Griffiths bu'n gwasanaethu wrth yr organ.

Hefyd, priodwyd Trystan Griffiths a Ceri Wozencraft o Landrindod ar Gorffennaf 25ain.

Priodas Aur

Yn ystod mis Hydref bu Jack a Mari Evans, Nantmeddalfach, yn dathlu eu Priodas Aur. Hir oes i chi'ch dau.

Noson Moes a Phryn

Cynhaliwyd Noson Moes a Phryn y capel ar ddechrau mis Hydref. Agorwyd y noson gan ein gweinidog y Parch Wyn Thomas. Cafwyd noson hwylus dros ben. Diolch eto i Gapel Seion am fenthyg y neuadd.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch eleni ar Hydref 5ed. Y Parch Eileen Davies, Llanllwni, fu'n gwasanaethu. Fe'i croesawyd gan ein gweinidog. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs Anne Thomas.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Carys Griffiths a Kevin Jones ar enedigaeth merch fach yn ddiweddar sef Ela Mablen. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Diaconiaid

Mae gennym ddiaconiaid newydd, sef Mr Jack Jones a Mrs Jean Griffiths - sydd wedi dechrau ar eu dyletswyddau yn barod. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

Undodwr Panorama yn siarad am frwydr Justice



Yn rhifyn Tachwedd 28ain, 2009, o 'The Inquirer' mae 'na gyfweiliad gyda Paul Kenyon, gohebydd ar raglen Panorama y BBC, sy'n Undodwr. Yn ddiweddar fe wnaeth gyhoeddi llyfr 'I Am Justice' – stori am fewnfudwr o Ghana, a'i frwydr e' a'i gyfoedion i geisio dianc i fywyd gwell yng ngorllewin Ewrop. Yn ystod eu taith ar draws Fôr y Canoldir fe wnaeth eu cwch ddymchwel, a bu'n rhaid iddyn nhw ddal yn dynn mewn rhwyd diwna enfawr am ddyddiau tan iddyn nhw gael eu hachub. Isod mae cyfieithiad o ran o'r cyfweiliad gyda Paul Kenyon.

Inquirer: Beth wnaeth dynnu eich sylw at stori Justice?

PK: Roedd gymaint o wahanol themau iddi, cymaint o droeon trwstan. Pe bai'r digwyddiadau yma'n dod i ran rywun o Brydain neu America, fe fydden nhw ar draws bob papur newydd mawr a bob blwtin newyddion yn y byd. Ond, dyma sefyllfa lle mae 40,000 o bobl y flwyddyn yn trio croesi'r Sahara ar droed, ac yna'n cael eu gwasgu ar gychod i groesi Môr y Canoldir a does fawr neb yn poeni amdany'n nhw. Mae rhyw fath o feddylfryd bod eu straeon nhw yn llai pwysig oherwydd mai fewnfudwyr ydyn nhw. A fyddai agwedd pobl yn wahanol at hynt a helynt rhywun fel Justice pe bai e'n fachgen ifanc o ardal Llundain?

Beth ydych chi'n obeithio y bydd eich llyfr yn ei gyflawni?

PK: Ro'n i'n awyddus i drïo rhoi wyneb a phersonoliaeth i achos carfan o bobl sy'n cael eu trin yn wael gan y rhan fwyaf o wledydd yn Ewrop. Fe wnaeth ffrind i fi ddweud bod ei fab 15 oed e' wedi darllen y llyfr ac wedi dweud, "Mae Justice yn cŵl. Petai fe yn yr ysgol gyda fi, bydden i am ei gael e' fel ffrind." A dyna beth o'n i am ei amlygu yn y llyfr

ein bod ni gyd yn cael ein clymu gyda'n gilydd o ran gwerthoedd ac agweddau beth bynnag yw'n hil neu'n crefydd.

Ro'n i hefyd am i ddarllenwyr ddeall y risg anhygoel mae pobl fel Justice yn ei gymryd, ac i beth yn y diwedd? Mae'r rheiny sy'n llwyddo i oroesi'r siwrnai hir o Affrica fel arfer ddim yn gwaith na chartref yn y gorllewin, ac yn by war gyrion cymdeithas. Mae 'na siawns uchel y gallan nhw farw ar eu ffordd i Ewrop, ond mae'n well gyda nhw fod ar waelod y pentwr yma nag ar y brig yn eu gwledydd nhw.

Oes cam-argraff o fewnfudwyr gan bobl ym Mhrydain?


PK: Oes yn sicr. Mae 'na dueddiad amlwg i feddwl fod pobl o dramor yma i hawlio budd-daliadau. Ond, mae'n rhaid i fi ddweud nad oes unrhyw un o'r bobl rwy' wedi siarad gyda nhw wedi trafod budd-daliadau o gwbl. Mae'r rhan fwyaf o bobl am ddod i Brydain oherwydd eu bod nhw'n siarad Saesneg, ac maen nhw'n meddwl y byddai hynny yn eu helpu, neu oherwydd bod teulu neu ffrindiau gyda nhw yma'n barod. Mae'r rhan fwyaf o'r rheiny sy'n dianc o Affrica fel Justice yn anelu am yr Eidal. Mae'n werth nodi hefyd bod hyd yn oed Ynys Malta yn derbyn mwy o fewnfudwyr fesul y boblogaeth nag yw Prydain.

Ydy hi'n anodd dod nôl i Brydain ar ôl bod yn gohebu dramor?

PK: Rwy'n byw yng ngorllewin Llundain, mewn ardal lle mae pobl mewn dillad drud yn treulio amser yn yfed cappuccino tua allan i dai bwyta, gyda'u ceir smart a'u tai moethus. Ambell waith, rwy' jyst am ysgwyd pobl - yn enwedig os ydyn nhw'n cwyno am y tywydd, neu bod hwn a'r llall yn cael cyflog uwch na nhw, ac ati. Ond fydden i ddim yn elwa llawr o wneud hynny, rwy'n siwr.

Ydych cefndir Undodaidd chi yn chwarae unrhyw ran yn eich gwaith?

PK: Pan ro'n i'n blentyn rwy'n cofio ein gweinidog ni yn cyfeirio at werthoedd Hindwaidd, Bwdaidd ac Islamaidd, ynghyd â rhai Cristnogol. Ac, o ganlyniad, lle bynnag rwy'n gohebu rwy'n teimlo rhyw fath o gysylltiad ysbrydol gyda'r lle hwnnw, a rhyw fath o gydymdeimlad tuag at ffydd y bobl mewn gwahanol wledydd.



APÊL: CYMORTH AR GYFER GWASANAETHAU

Annwyl Olygydd,

Mae'n fwiad gan bwyllgor y Gyfadran Undodaidd i gyhoeddi casgliad o ryddiaith neu farddoniaeth a fyddai'n addas i'w defnyddio mewn gwasanaethau. Mae prinder deunydd o'r fath a gobeithiwn am eich help chi i wneud iawn am y diffyg. Felly, os gwyddoch am ryw rai a allai gyfrannu, wnewch chi gysylltu gyda nhw hefyd a dweud am ein bwriad? Byddem yn gobeithio cynnwys rhywfaint sydd wedi ei gyhoeddi'n barod mewn gwahanol lyfrau a gyhoeddwyd gennym yn y gorffennol.

Gall y deunydd fod ar bynciau amrywiol fel cyfeillgarwch, cariad, yr amgylchedd, dewrder, heddwch, byd natur, defnyddio talentau, dathlu, deall ffyrdd gwahanol o fyw, profiadau afiechyd, bwlio, unigrwydd, - a llawer, llawer mwy.

Gellir cynnwys deunydd ar bynciau mwy penodol fel y Nadolig, y Pasg, y teulu, y cynhaeaf, Gwyl Dewi, y tymhorau, dechrau a diwedd blwyddyn, cymuned, penblwydd ag ati.

Gall fod yn ddarn byr ar gyfer dechrau neu ddiwedd gwasanaeth, cynnau a diffodd y gannwyll.

Byddem yn falch i dderbyn cyfieithiadau, addasiadau neu waith gwreiddiol ar ffurf stori, hanesyn, profiad, cymeriad roeddech chi'n ei nabod, digwyddiad arbennig.....

Byddai un darn neu hanner dwsin a mwy yn dderbyniol ac hefyd ymdrechion gan blant/ pobl ifainc ar y cyd mewn Ysgol Sul neu fel grŵp. Danfonwch gynnyrch ata i erbyn diwedd Mawrth 2010, naill ai drwy'r post neu ar e bost i'r cyfeiriad uchod. Diolch i chi ymlaen llaw am eich help.

Eric Jones

Parch Eric Jones
Ysgrifennydd Y Gymdeithas Undodaidd (Cyfadran Cymru)
14 Clifton Street, Aberdar, CF44 7PB
Ffôn: 01685 873440 Ffacs: 01685 882470

e bost: eric.clochdar@gmail.com



Anna Phillips yn cyflwyno sic i Eryl Jones, Trysorydd 'Yr Ymofynnydd' - rhan o'r arian a godwyd adeg y Daith Gerdded Flynyddol

'PERLAU'R PRIDD: DYDDIADURON DEFI LANGO'

y ffermwr diwylliedig o
Esgerdawe,
Sir Gaerfyrddin
Golygydd : Goronwy Evans

AR WERTH NAWR
yn Siop y Smotyn Du a siopau
llyfrau eraill

PRIS: £7.95

Brysiwch i gael eich copi, mae
'na alw mawr amdanyn nhw!





Dylanwad Undodiaeth ar un o ffilmiau mawr Disney eleni

Un o ffilmiau mawr y Nadolig yw 'A Christmas Carol' – nofel gan Charles Dickens, wrth gwrs, sydd wedi ei addasu ar gyfer y sgrîn fawr gan Disney. Ac fel y canfu Ioan Wyn Evans, dyma'r gwaith sy'n adlewyrchu fwyaf syniadau Undodaidd Dickens.


Cyhoeddodd Charles Dickens 'A Christmas Carol' yn Rhagfyr 1843, yn fuan iawn ar ôl iddo ymuno â chynulleidfa eglwys Undodaidd. Ac mae'n debyg y byddai'n deg dadlau mai dyma'r nofel sy'n cynrychioli ei gredoau Undodaidd yn fwy nag un o'i weithiau eraill.

Wedi ei eni a'i fagu yn yr Eglwys Anglicanaidd, dadrithiodd Dickens a throdd yr awdur at Undodiaeth yn 30 oed. Mae'n debyg ei fod wedi ei argyhoeddi mai Undodwr oedd e' wrth reddf wedi ymweliad gydag America yn 1842 pan wnaeth e' gyfarfod gyda dau o Undodiaid amlwg yn yr Unol Daleithiau – Ralph Waldo Emerson a William Ellery Channing.

Wedi dychwelyd i Lundain, fe ymaelododd Dickens yng Nhapel Undodaidd Little Portland Street a daeth yn ffrindiau agos gyda'r gweinidog yno, Edward Tagart. Esboniodd ei resymau am ymuno gyda'r capel Undodaidd mewn llythyr at gyfaill: "Disgusted with our Established Church...and daily outrages on common sense and humanity, I have carried into effect an old idea of mine, and joined the Unitarians, who would do something for human improvement, if they could; and who practice Charity and Toleration."

Ac fe ddaeth y 'Charity and Toleration' - bod yn 'elusengar' a 'goddefgar' - yn themau pwysig yng ngwaith y nofelydd. Yn 'A Christmas Carol', er enghraifft, nod Dickens, mae'n debyg, yw ceisio dangos ei bod hi'n bosib i unrhyw un i newid ei ffordd o fyw er mwyn ceisio helpu eraill. Mae'r trawsnewidiad yng nghymeriad Ebenezer Scrooge yn dangos bod modd i rywun a oedd unwaith yn gymeriad caled, didostur a hunanol newid i fod yn berson teg, elusengar a gofalus am eraill – rhywun sydd yn gallu gwneud gwahaniaeth a chyfraniad positif i'w gyd-ddyn a'i gymuned. Dyna, meddai Dickens yn ei nofel, yw gwir ysbryd y Nadolig.

Er mai 'A Christmas Carol' yw nofel fwyaf 'Undodaidd' Dickens, mae syniadaeth Undodiaeth i'w weld fel thema gyson neu'n gefndir i nifer o'i weithiau. Mae'r pwyslais ar wrthod rhyw fath o Dduw sy'n beirniadu, gyda phwysigrwydd dangos cariad a goddefgarwch yn ymddangos yn aml yn ei waith. Yn bennaf oll, efallai, y neges a geir yw bod angen gweithio i ddiwygio cymdeithas er mwyn newid a gwella sefyllfaoedd a bywydau unigolion. A phwy all ddadlau - beth bynnag yw barn rhywun ar Dickens - nad yw hynny'n nod teilwng i anelu ato fe a'n hanfod i Undodiaeth ers canrifoedd.



DIOLCH I NODDWR Y RHIFYN YMA

E & E Williams,
Garej Garlyn, Temple Bar
Felinfach
01570 470687

D.J. Jenkins A'i Fab,
Bedlwyn, Felinfach
01570 470741

Dai's Diner,
11, Heol y Bont, Llanbed
Bwyd drwy'r dydd, 7yb tan 6yh
01570 422179

Gwasanaeth Teiars Grahams,
Cwmann, Llanbed
01570 422920 / 423305 (hwyr)

Evans Bros, Arwerthwyr,
Llanybydder
01570 480466

Eryl Jones, Cyfrifydd,
Llanybydder
01570 480466

J & E Woodworks,
Barley Mow, Llanbed
01570 422141

Bara Gwalia,
Sgwar y Farchnad, Llanybydder
01570 480465

Siop y Smotyn Du,
Stryd Fawr, Llanbed
Llyfrau i bob oed, CD's a DVD's
01570 422587

Lyn Rees,
Peintwr ac Addurnwr,
New Inn, Pencader
01559 384538

J.H. Williams,
Llanbed a Chaerfyrddin
Arbenigwyr llestri a nwyddau bwyd
01570 422488

Bysiau G & M a Bysiau Meurig,
Garej Pontfaen, Llanbed
01570 423772 / 422349
neu 07836 699310

Carafanau 3A,
Pencader
01559 384232

Gwilym C. Price,
Ei Fab A'i Ferched,
Stryd y Coleg, Llanbed
01570 422673 / 423170

Golygydd Yr Ymofynnydd yw
Ioan Wyn Evans.

Rhif ffôn:
01267 233690

E-bost:
ioanwyn_gwenllian@hotmail.com

**Dymuna'r Noddwyr
Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda
i Bawb**